**Rhif: WG53522**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Ymgynghoriad ar addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol

## Ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol - arfer pŵer rheoleiddiol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Chwefror 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx
ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Mae trin ymgeiswyr yn deg, a gwneud yn siŵr bod y cymhwyster yn parhau i fod yn ddilys, yn ystyriaeth bwysig.

Gwnaethom ymgynghori ar gynigion i wneud newidiadau penodol a chyfyngedig i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru sydd ag amhariadau a/neu anableddau yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gymwysterau o dan y system cymwysterau, gyda'r ddarpariaeth yn galluogi cyrff dyfarnu i wneud addasiadau i agweddau penodol ar asesiad (ar gyfer cymwysterau cyffredinol) a lle bo angen dileu elfennau asesu (drwy esemptiad) mewn amgylchiadau a ganiateir.

Wedi'i lywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyhoeddir diweddariad i'r Fanyleb o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010 cyn hir, y bydd yn rhaid i'r gynulleidfa darged roi sylw iddo wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Llwybrau Dysgu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: QWSUCorrespondence@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennau ymgynghori: Addasiadau Rhesymol i Gymwysterau Cyffredinol | LLYW. CYMRU

# Cynnwys

Cynnwys........................................................................................................... 3
Cefndir yr ymgynghoriad…………………………………………………..………...4
Ymgysylltu â'r ymgynghoriad……………………………………………….……..6
Yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad…………………………………..……..6
Y camau nesaf……….……………………………………………….………..……… 10

**Cefndir yr ymgynghoriad**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar gynigion i wneud newidiadau penodol a chyfyngedig i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol ('y Fanyleb') a gyhoeddwyd mewn canllawiau statudol 'Addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol. Arfer pŵer rheoleiddio Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010', sy'n nodi'r canllawiau a'r fframwaith i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru sydd â amhariadau a/neu anableddau yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gymwysterau. Mae''r ddarpariaeth yn galluogi cyrff dyfarnu i wneud addasiadau i agweddau penodol ar asesiad (ar gyfer cymwysterau cyffredinol) a lle bo angen dileu elfennau asesu (drwy esemptiad) mewn amgylchiadau a ganiateir.

Mae adran 96 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gorff cymwysterau wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu ar neu erlid person yn y trefniadau a wneir ganddo ar gyfer penderfynu i bwy y rhoddir cymwysterau iddynt, a'r telerau ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau hynny. Diffinnir cyrff cymwysterau yn adran 97 o Ddeddf 2010 ac mae'n cynnwys CBAC. Mae adran 96 o Ddeddf 2010 hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl. Mae pŵer gan Weinidogion Cymru i ddynodi "rheoleiddiwr priodol" a Gweinidogion Cymru yw'r rheoleiddiwr priodol yng Nghymru. Caiff Gweinidogion Cymru bennu materion nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd addasiadau rhesymol. Gall y rheoleiddiwr priodol hefyd nodi pa addasiadau rhesymol na ddylid eu gwneud. Wrth wneud hynny, rhaid i'r rheoleiddiwr priodol ystyried yr angen i:

a. leihau'r graddau y mae pobl anabl yn cael eu rhoi dan anfantais,
b. sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y sawl sydd wedi'i gyflawni, a
c. diogelu uniondeb y cymhwyster a chynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010 yn penodi Gweinidogion Cymru fel y rheoleiddiwr priodol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn golygu bod gan Weinidogion Cymru berchnogaeth o unrhyw fanylebau ynghylch darparu addasiadau rhesymol yn ogystal â'r rhestr o gymwysterau y gallai'r rhain fod yn gymwys iddynt.

Mae'r fanyleb gyfredol yn manylu na cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol pan fyddai'n fwy na 40 y cant o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster. O dan y rheolau hyn, ni ellid defnyddio esemptiad o unrhyw gydran, neu gyfuniad o gydrannau, sy'n fwy na 40 y cant o gymhwyster fel addasiad rhesymol. Yn ogystal, ni cheir defnyddio esemptiad o ran o gydran fel addasiad rhesymol. A dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y ceir caniatáu esemptiadau ar gyfer cydran gyfan.

Yn dilyn cyngor gan Cymwysterau Cymru, ymgynghorwyd ar gynigion i wneud rheol eithriadol ar gyfer rhoi esemptiad o asesiad ar gyfer cymwysterau TGAU penodol. Cynigiwyd y rheolau eithriadol hyn i ganiatáu i gyrff dyfarnu gymhwyso'r ddarpariaeth ar gyfer esemptiadau er mwyn i ddysgwyr ag amhariadau a/neu anableddau penodol allu cael mynediad at y cymwysterau penodol hyn.

Roedd y rhain fel a ganlyn:

(a) ychwanegu eithriad ar gyfer TGAU Cymraeg Craidd, fel y gellir esemptio 50% o asesiadau'r cymhwyster fel addasiad rhesymol lle nad oes addasiad rhesymol arall ar gael.
(b) ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith cyfredol, ychwanegu eithriad fel y gellir esemptio 50% (yn hytrach na 40%) o asesiadau'r cymhwyster fel addasiad rhesymol lle nad oes addasiad rhesymol arall ar gael, ar gyfer y dysgwyr hynny a fydd yn cael eu hasesu yn erbyn y cymhwyster hwnnw yng nghyfres arholiadau 2026. Ni fydd y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol yn cael ei addysgu mewn ysgolion i ddysgwyr Blwyddyn 10 o fis Medi 2025 ymlaen, pan fydd yn cael ei ddisodli gan y cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd;
(c) ar gyfer TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg a TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, gwneud newid i'r manylebau er mwyn caniatáu esemptiad rhannol o un neu fwy o gydrannau fel addasiad rhesymol lle nad oes addasiad rhesymol arall ar gael.

O ganlyniad i strwythur cynllunio'r cymwysterau hyn, byddai paramedrau cyfredol y Fanyleb Addasiadau Rhesymol yn effeithio ar ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r cymwysterau hyn y gallai eu hanabledd (e.e. mudandod achlysurol) effeithio ar eu gallu i gwblhau'r asesiad llafaredd.

## Ymgysylltu â'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 1 Medi a 24 Hydref 2025. Cafodd ysgolion uwchradd eu hysbysu am yr ymgynghoriad drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Dysg a Llywodraeth Cymru. Rhannwyd dolenni i'r ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyrff dyfarnu, Rheoleiddwyr Cymwysterau'r DU, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CCAC, sefydliadau Cymraeg, yr Adrannau Addysg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chysylltiadau a rhwydweithiau cydraddoldeb allweddol. Cafwyd cyfanswm o 77 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

1) Cyngor Sir Ceredigion
2) Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
3) Estyn
4) NASUWT – Undeb yr Athrawon
5) Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU Cymru)
6) Cyngor Abertawe
7) Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru - UCAC

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan gyda phawb naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno i'r cynigion.

## Yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddiwygio'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol i wneud rheolau eithriadol ar roi esemptiad o asesiad ar gyfer y cymwysterau TGAU penodol a nodwyd?**

**Cytuno'n gryf = 3**
**Cytuno = 4**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Nododd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn fod y cynigion yn sicrhau dull cytbwys sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac yn osgoi anfantais i ddysgwyr anabl a/neu'r rhai ag amhariadau penodol wrth geisio ennill y cymwysterau penodedig.

Yn ôl yr adborth gan yr ymatebwyr, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyfleu'n glir yn y diwygiadau i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol y dylid ystyried esemptiadau fel dewis olaf ac y byddent yn gymwys dim ond lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod y Fanyleb Addasiadau Rhesymol ddiwygiedig, pan gaiff ei chyhoeddi, yn rhoi eglurder ar y pwynt hwn, gan bwysleisio mai dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio esemptiadau a rhaid darparu tystiolaeth o amgylchiadau unigol y dysgwr. Bydd hyn yn cysylltu â'r canllawiau ehangach ar Drefniadau Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig a gyhoeddir yn flynyddol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) a bydd yn pwysleisio y dylid gwneud pob ymdrech i nodi addasiadau rhesymol a allai ganiatáu i'r dysgwr gymryd rhan yn yr asesiadau ar gyfer pob rhan o gymhwyster, er mwyn iddynt ddangos yn llawn yr hyn y gallant ei gyflawni. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddai'n briodol ystyried esemptiad.

**Cwestiwn 2 – Os ydych chi'n anghytuno, neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 1, a oedd hyn mewn perthynas â'r dull arfaethedig yn gyffredinol neu mewn perthynas ag un o'r cymwysterau TGAU penodol a nodwyd.**

Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau i'r cwestiwn hwn gan fod yr holl ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â Chwestiwn 1.

**Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn caniatáu mynediad teg a chyfartal i'r cymwysterau penodol i ddysgwyr y gallai eu hanabledd effeithio ar eu gallu i gwblhau'r asesiad llafaredd?**

**Cytuno'n gryf = 1**
**Cytuno = 6**

**Crynodeb o’r ymatebion**

O'r ymatebion a dderbyniwyd, cytunodd yr ymatebwyr fod y dull arfaethedig yn cefnogi mynediad teg a chyfartal i ddysgwyr y mae eu hanableddau yn effeithio ar eu gallu i gwblhau asesiadau llafaredd, ar gyfer y cymwysterau TGAU penodol a nodwyd.

Unwaith eto, dywedodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig pwysleisio yn y canllawiau bod esemptiadau yn ddewis olaf a byddant yn gymwys dim ond pan nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn bosibl i ganiatáu i'r dysgwr wneud yr asesiad.

**Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn lleihau'r graddau y mae pobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu hanableddau wrth geisio ennill y cymhwyster?**

**Cytuno'n gryf = 3**
**Cytuno = 4**

**Crynodeb o’r ymatebion**

Cytunodd yr ymatebwyr y bydd y dull arfaethedig yn helpu i leihau anfantais i ddysgwyr anabl o ran cael mynediad at y cymwysterau TGAU newydd yn y pynciau penodedig a'u hennill.

Nodwyd trwy gydol yr ymatebion bod angen cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu wneud addasiadau rhesymol fel nad yw dysgwyr anabl yn cael eu cosbi'n annheg gan drefniadau asesu.

**Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn parhau i ganiatáu i’r cymwysterau a nodwyd roi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y person dan sylw?**

**Cytuno'n gryf = 1**
**Cytuno = 5**
**Anghytuno = 1**

**Crynodeb o’r ymatebion**

Nododd chwech o'r saith ymateb y byddai'r cynigion yn sicrhau bod dulliau dyfarnu yn y dyfodol yn gyson â'r arferion presennol, gan alluogi cymhwyster teg a dilys sy'n adlewyrchu gallu dysgwr. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn diogelu hyder y cyhoedd, gan nodi y bydd unrhyw esemptiadau a roddir yn cael eu nodi'n glir ar dystysgrif y dysgwr, gan sicrhau tryloywder i ddarparwyr addysg a chyflogwyr.

Cododd un ymatebydd bryder. Nododd fod angen 'dull cyfathrebu llwyr' o fewn ysgolion. Roedd yn credu y gallai dysgwyr gyfathrebu gan ddefnyddio dull sy'n gyfforddus iddyn nhw yn hytrach na chael eu hesemptio o'r elfennau llafar gan nad oes ganddynt iaith lafar. Nodir bod dulliau asesu amgen ar gael i sicrhau tegwch a chynhwysiant fel offer AAC[1] , Iaith Arwyddion Prydain etc a chydnabyddir bod yr opsiynau hyn yn cael eu harchwilio'n llawn cyn ystyried esemptiadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae cwmpas y darpariaethau ar gyfer Addasiadau Rhesymol yn caniatáu addasiadau i rai agweddau ar asesiad. Mae'r Canllawiau JCQ 'Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu – Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol'[2] yn nodi'r ystod o opsiynau cymorth y gellir eu hystyried. Mae Pennod 5 yn nodi'r dulliau cyfathrebu amgen a allai gefnogi'r dysgwr fel rhan o'r asesiad ac sydd i'w hystyried cyn gwneud cais am esemptiad. Mae'n ailadrodd bod eithriadau yn cael eu hystyried fel dewis olaf mewn amgylchiadau a ganiateir, os nad oes unrhyw drefniadau neu addasiadau amgen yn cael eu hystyried yn briodol.

**Cwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn cynnal ffydd y cyhoedd yn y cymwysterau a nodwyd?**

**Cytuno'n gryf = 1**
**Cytuno = 6**

**Crynodeb o'r ymatebion**

Nododd yr ymatebwyr fod y diwygiadau yn berthnasol dim ond mewn achosion eithriadol lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol. Bydd y cymwysterau yn dal i gael eu dyfarnu yn seiliedig ar gyfran ddigonol o'r cynnwys a aseswyd, gan sicrhau eu bod yn parhau i gynrychioli mesur dilys a dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr. Yn eu hymateb, mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth, yn monitro sut mae esemptiadau'n cael eu cymhwyso bob blwyddyn. Byddai gwerthuso'r patrymau o ran y defnydd o esemptiadau, deilliannau dysgwyr a chysondeb y canolfannau yn rhoi sicrwydd bod y dull hwn yn parhau i fod yn deg ac yn parhau i ennyn hyder y cyhoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ran cymhwyso esemptiadau, mater i CBAC fel y corff dyfarnu fydd ystyried cais gan Ganolfan ar ran dysgwr a chymeradwyo neu wrthod y cais, fel y maent yn ei ystyried yn briodol. Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr sy'n goruchwylio'r broses. Ar hyn o bryd, yn dilyn pob cyfres arholiadau, mae Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi dadansoddiad data ystadegol blynyddol ar nifer y ceisiadau am ystyriaeth arbennig

[1] Cyfathrebu Estynedig ac Amgen.
[2] JCQ - 2025/26 - JCQ-AARA-2025_FINAL.pdf

a'r nifer a gymeradwyir yng Nghymru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch[3].

Byddwn yn archwilio gyda CBAC a Cymwysterau Cymru a oes cyfleoedd, drwy fonitro'r broses, i ystyried gwerthusiad pellach o'r patrymau o ran y defnydd o esemptiadau, deilliannau dysgwyr a chysondeb y canolfannau wrth wneud cais am esemptiadau.

**Mynd i'r afael â phwyntiau a godwyd mewn ymateb i Gwestiynau 7 - 10**

Roedd yr ymatebion a gafwyd i Gwestiynau 7-10 yn tynnu sylw at bwyntiau tebyg ac yn ymdrin â themâu gweddol debyg. Ceir crynodeb o'r ymatebion hyn isod.

**Cwestiwn 7 - Beth yw'ch barn am yr effeithiau y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).**

Nododd yr ymatebwyr fod y diwygiadau arfaethedig yn gam cadarnhaol a chymesur tuag at ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr unigol, cryfhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 a chynnig mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr a fyddai fel arall dan anfantais o ran cynllun yr asesiadau llafar yn yr cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg newydd.

Nodwyd hefyd bod angen cydbwyso'r ddarpariaeth ar gyfer esemptio elfennau o asesiadau cymwysterau yn erbyn yr angen i gynnal cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu sgiliau llafaredd.

**Cwestiwn 8 - Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig ar y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nododd yr ymatebwyr y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol fach ar y Gymraeg ym Mlwyddyn 10 ac 11 drwy wneud y cymwysterau Cymraeg yn fwy hygyrch i ddysgwyr ag anableddau penodol.

Nodwyd cysondeb y dull gweithredu, gyda'r diwygiadau arfaethedig yn berthnasol i TGAU Cymraeg Ail Iaith, TGAU Cymraeg Craidd, TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, a TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg, a bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at y

[3] Datganiad Ystadegol Cymwysterau Cymru - Ystyriaeth arbennig ar gyfer TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Nghymru: Haf 2025 | Cymwysterau Cymru (Tachwedd 2025)

cymwysterau priodol a pharhau â'u taith i ddysgu Cymraeg, sy'n atgyfnerthu'r ymrwymiad i system addysg ddwyieithog a chynhwysol.

**Cwestiwn 9 - Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â chymwysterau TGAU Cymraeg Craidd a TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg er mwyn gwneud y canlynol:**

- **cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Nododd yr ymatebwyr y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol gan ddweud y gallai'r newidiadau hyn, o'u gweithredu'n glir, eu cymhwyso'n gyson a'u monitro'n briodol, wella cynhwysiant cymwysterau cyfrwng Cymraeg a pharhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob sector.

**Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, gallwch eu nodi yma:**

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd un ymatebydd allu'r gweithlu addysg i ddarparu addysgu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Mynegodd yr ymatebydd ei farn ar asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg drwy weithredu cynllun ar gyfer gweithlu, er mwyn galluogi mwy o weithwyr addysg proffesiynol i addysgu a chefnogi plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Er ei fod y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi rhannu'r adborth hwn gyda thimau polisi Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cwricwlwm, y Gymraeg a'r gweithlu ysgolion.

## Y camau nesaf

Yn seiliedig ar y gefnogaeth gadarnhaol a gafwyd i'n cynigion drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ein bwriad yw bwrw ymlaen fel y cynlluniwyd. Rydym wedi ymateb i'r adborth penodol a gafwyd yn y crynodebau uchod o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Wedi'i lywio gan yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau diwygiedig drwy'r Fanyleb Addasiadau Rhesymol 'Addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol. Arfer pŵer rheoleiddio Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010' maes o law i wneud rheol eithriadol ar esemptio o asesiad ar gyfer cymwysterau TGAU penodol.

Bydd y rheolau eithriadol hyn yn caniatáu i gyrff dyfarnu gymhwyso'r ddarpariaeth ar gyfer esemptiadau er mwyn i ddysgwyr ag amhariadau a/neu anableddau penodol allu cael mynediad at y cymwysterau penodol hyn.

Wrth ddiweddaru’r Fanyleb, eglurir ei bod yn ofynnol i gorff dyfarnu archwilio'r holl opsiynau eraill cyn ystyried esemptiad, gydag esemptiad yn cael ei ddefnyddio pan fydd popeth arall wedi methu, a rhaid darparu tystiolaeth o amgylchiadau unigol y dysgwr.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Cymwysterau Cymru, yn rhinwedd eu rôl fel rheoleiddiwr, a CBAC, fel y corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU yng Nghymru, i sicrhau bod y newidiadau i'r ddogfen ganllaw yn cael eu nodi a'u cyfleu i swyddogion arholi fel y bo'n briodol.